# Darparu cymorth mewn profedigaeth i unigolion ac eraill

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion wrth gefnogi unigolion ac eraill drwy brofedigaeth. Mae hyn yn cynnwys cefnogi unigolion ac eraill pan fyddant yn clywed gyntaf am eu colled, eu cefnogi yn ystod eu profedigaeth, a rheoli newidiadau sy'n deillio o'r brofedigaeth.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth i'ch helpu i gefnogi unigolion ac eraill drwy brofedigaeth
2. creu amgylcheddau addas i gefnogi unigolion ac eraill pan fyddant yn clywed gyntaf am eu colled
3. amseru rhyngweithiadau fel bod unigolion ac eraill yn gallu prosesu'r wybodaeth, ac y gallwch chi asesu eu hymatebion
4. annog unigolion ac eraill i ofyn cwestiynau
5. rhoi gwybod i unigolion ac eraill am y trefniadau sy'n dilyn marwolaeth, a'u cefnogi â hynny
6. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i gael gafael ar yr wybodaeth, yr adnoddau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt
7. sicrhau bod unigolion ac eraill yn cael preifatrwydd ac amser ar y cychwyn i ymdopi â'r brofedigaeth
8. cefnogi unigolion ac eraill i fynegi eu teimladau am y brofedigaeth
9. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi'r newidiadau a'r cymorth sydd eu hangen i ddechrau yn dilyn profedigaeth
10. cefnogi unigolion ac eraill â'u profedigaeth ac i reoli galar a cholled mewn ffordd sy'n cwrdd â'u hanghenion
11. cefnogi unigolion ac eraill i addasu i newidiadau mewn ffordd sy'n cwrdd â'u hanghenion
12. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer darparu cymorth mewn profedigaeth i unigolion ac eraill
13. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i ddarparu cymorth mewn profedigaeth i unigolion ac eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar wybodaeth i gefnogi unigolion ac eraill drwy brofedigaeth, a sut mae adolygu'r wybodaeth honno
2. pwysigrwydd cymorth amserol sydd wedi'i gydlynu'n dda yn ystod cyfnod o brofedigaeth
3. sut mae creu amgylcheddau addas a phwysigrwydd cyfathrebu effeithiol pan fydd unigolion ac eraill yn cael gwybod am eu colled
4. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth ddarparu cymorth mewn profedigaeth i unigolion ac eraill
5. sut mae cefnogi unigolion ac eraill â'u hemosiynau a chymhlethdod emosiynau yn ystod profedigaeth
6. y mathau o adnoddau a chymorth mewn profedigaeth sydd ar gael i unigolion ac eraill, a sut i gael gafael arnynt
7. effaith profedigaeth, galar a cholled ar unigolion ac ar berthynas
8. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma wrth ddarparu cymorth mewn profedigaeth i unigolion ac eraill
9. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar ddarparu cymorth mewn profedigaeth i unigolion ac eraill
10. dylanwad diwylliant, cefndir ac ysbrydolrwydd ar gymorth mewn profedigaeth i unigolion ac eraill
11. sut mae defnyddio strategaethau i reoli eich emosiynau a'ch ymatebion wrth ddarparu cymorth mewn profedigaeth i unigolion ac eraill
12. y gweithdrefnau y mae angen eu dilyn yn y gweithle ar ôl marwolaeth
13. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer darparu cymorth mewn profedigaeth i unigolion ac eraill
14. theorïau sy'n berthnasol i ddarparu cymorth mewn profedigaeth i unigolion ac eraill
15. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer darparu cymorth mewn profedigaeth i unigolion ac eraill
16. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth ddarparu cymorth mewn profedigaeth i unigolion ac eraill
17. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i ddarparu cymorth mewn profedigaeth i unigolion ac eraill

18. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth ddarparu cymorth mewn profedigaeth i unigolion ac eraill, a sut i fynd i'r afael â hyn
19. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth ddarparu cymorth mewn profedigaeth i unigolion ac eraill

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD335

Darparu cymorth mewn profedigaeth i unigolion ac eraill

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD335 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Cymorth mewn Profedigaeth, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |